



Cymorth Ariannol ar gyfer Eiddo Gwag yn Sir Ddinbych

“Troi tai’n gartrefi”



Troi Tai'n Gartrefi

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi gyda chronfa o £20 miliwn o bunnoedd. Mae'r arian hwn ar gael i'r cynghorau yng Nghymru gynnig benthyciadau di-log tymor byr i helpu gyda chostau adnewyddu eiddo gwag, i'w defnyddio unwaith eto.

Dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Syrfëwr Prosiect Adeiledig sy'n delio ag Eiddo Gwag yn Sir Ddinbych a gofyn am ffurflen Mynegi Diddordeb (EOI) er mwyn ei llenwi. Unwaith y bydd hon wedi'i chyflwyno, bydd y Syrfëwr Prosiect Adeiledig mewn cysylltiad er mwyn trefnu dyddiad ac amser i gwrdd â chi yn yr eiddo am ymweliad safle addas, ac i esbonio'r broses ymgeisio gyda chi.

Sylwch nad ydy unrhyw gynnig o fenthyciad yn cael ei warantu nes byddwch wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol gan y cyngor.

Benthyciadau Di-log

- Mae'r math hwn o gymorth yn **ddewisol** ac wedi'i anelu'n bennaf at ddatblygwyr eiddo.
- Mae'r cymorth ar ffurf benthyciad ar gael i berchnogion eiddo gael defnyddio eiddo gwag unwaith eto.
- Ni all ymgeiswyr fyw yn y cyfeiriad, mae'n rhaid i'r eiddo fod ar gael i'w osod neu ei werthu.
- Bydd gwaith cymwys yn cynnwys yr holl waith a ystyrir yn angenrheidiol i allu defnyddio'r eiddo unwaith eto.
- Os na fydd y benthyciad yn talu holl gostau'r gwaith, efallai y gofynnir am dystiolaeth o gyllid digonol i sicrhau bod y cynllun yn hyfyw yn ariannol.
- Uchafswm y benthyciad sydd ar gael yw **£25,000 fesul uned o lety**, hyd at uchafswm o **£150,000 fesul ymgeisydd**.
- Bydd benthyciadau yn cael eu **sicrhau fel arwystl 1af neu 2il arwystl yn erbyn teitl y Gofrestrfa Tir**.

- Mae benthyciad yn cael ei gynnig ar **sail ddi-log**
- Bydd benthyciadau i allu **gwerthu** eiddo unwaith eto yn ad-daladwy o fewn dwy flynedd i'r dyddiad cymeradwyo.
- Bydd benthyciadau i allu **rhentu** eiddo unwaith eto yn ad-daladwy o fewn tair blynedd i'r dyddiad cymeradwyo.
- Mae'n rhaid i eiddo cymwys fod wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy.
- Bydd eiddo masnachol sy'n cael ei drawsnewid yn ddefnydd preswyl hefyd yn cael ei ystyried.
- Bydd costau gweinyddu a chyfreithiol yn berthnasol.
- Bydd prisiad yr eiddo ac unrhyw fenthycia presennol yn ei erbyn yn cael eu hystyried.

Bydd unrhyw waith y byddwch yn ei wneud cyn derbyn cymeradwyaeth ar eich cost eich hun

Beth i'w wneud nesaf?

I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau uchod, cysylltwch â'r Syrfëwr Prosiect Adeiledig a fydd yn ymdrechu i'ch cynorthwyo mewn unrhyw ffordd bosibl.

Unwaith y bydd y cais wedi dod i law, bydd y Syrfëwr Prosiect Adeiledig yn cysylltu â chi i drefnu i weld a thrafod yr eiddo gyda chi.

**Adran Amgylchedd Adeiledig
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych
Caledfryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3RJ**

Rhif Ffôn: 01824 706717

E-bost: amgylchedd.adeiledig@denbighshire.gov.uk